# Credyd Cynhwysol
# Cwestiynau Cyffredin i Bartneriaid

Gellir defnyddio'r cwestiynau cyffredin hyn i gefnogi unrhyw sgyrsiau rydych yn eu cael gyda chwsmeriaid. Os nad yw cwestiwn/ateb ar y rhestr hon, rhowch wybod i ni a byddwn yn gwneud ein gorau i'w hateb yn gyflym.

## 1. Beth yw 'Symud i UC'?

Mae Symud i UC yn cyfeirio at y ffordd mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn symud cartrefi ar fudd-daliadau etifeddol hŷn drosodd i un system budd-daliadau sengl, sef Credyd Cynhwysol.

Y budd-daliadau etifeddol yr effeithir arnynt yw:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm
- Budd-dal Tai
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Credyd Treth Plant
- Credyd Treth Gwaith

## 2. Beth sydd angen i unigolion sy'n cael eu heffeithio i'w wneud?

Ni fydd y symud yn awtomatig. Bydd cwsmeriaid budd-dal etifeddol yn cael llythyr gan DWP yn eu hysbysu am ddyddiad penodol erbyn pryd y bydd angen iddynt wneud cais am Gredyd Cynhwysol (UC), os ydynt yn dymuno parhau i dderbyn cymorth ariannol.
Mae'r llythyr hwn – a elwir yn Hysbysiad Trosglwyddo - hefyd yn rhoi manylion am rywfaint o'r cymorth sydd ar gael i'w helpu i symud.

Nid oes angen i unigolion gymryd unrhyw gamau nes eu bod yn derbyn y llythyr hwn.

## 3. Pryd mae hyn i gyd yn digwydd?

Dechreuodd yr Adran anfon Hysbysiadau Trosglwyddo at gwsmeriaid Cymhorthdal Incwm a'r rhai sy'n hawlio credydau treth gyda Budd-dal Tai o fis Ebrill 2024, gyda chwsmeriaid Budd-dal Tai yn unig a chwsmeriaid Lwfans Cyflogaeth a Chymorth gyda Chredydau Treth Plant yn cael eu gwahodd o fis Gorffennaf 2024. Mae cwsmeriaid Lwfans Ceisio Gwaith a chwsmeriaid oedran Pensiwn y Wladwriaeth sy'n derbyn Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant wedi cael eu gwahodd i hawlio Credyd Cynhwysol o fis Medi 2024.

Bydd y rhai sydd ar Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) yn seiliedig ar incwm yn unig neu'r rhai ar ESA gyda Budd-dal Tai yn derbyn eu llythyr Hysbysiad Trosglwyddo cyn diwedd Medi 2025.

Gallai cartrefi yr effeithir arnynt fod yn derbyn cyfuniad o fudd-daliadau, er enghraifft gallai derbynnydd Cymhorthdal Incwm hefyd fod yn hawlio Budd-dal Tai a/neu Lwfans Ceisio Gwaith.

## 4. I ble allwn ni ddweud wrth bobl i fynd am fwy o help a chefnogaeth?

Mae ystod o gefnogaeth ar gael i helpu pobl i wneud eu cais yn llwyddiannus, gan gynnwys:

- Gwefan Symud i UC – gov.uk/symudiuc
- Wyneb yn wyneb mewn Canolfannau Gwaith lleol
- Llinell gymorth ffôn benodol ar gyfer Symud i Gredyd Cynhwysol (bydd y rhif ffôn ar Hysbysiad Trosglwyddo'r cwsmer)
- Canllawiau cynhwysfawr ar gov.uk
- Help i Hawlio, a ddarperir yn annibynnol gan Gyngor ar Bopeth, mewn partneriaeth â Chyngor ar Bopeth yr Alban, i helpu pobl gyda'u cais gwirioneddol
- Gallwch hefyd wirio pwy all eich helpu yn eich ardal leol yn: advicelocal.uk

Byddem yn annog partneriaid i dynnu sylw at y mathau ychwanegol hyn o gefnogaeth fel rhan o sgyrsiau a gweithgareddau parhaus gyda chwsmeriaid.

## 5. A oes unrhyw un wedi'i eithrio rhag symud i Gredyd Cynhwysol?

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellir gwneud eithriadau. Mae'r Senedd wedi deddfu i gyflwyno Credyd Cynhwysol a dod â budd-daliadau etifeddiaeth i ben, gan gynnwys Credydau Treth. Pan fydd cwsmeriaid yn derbyn llythyr Hysbysiad Trosglwyddo bydd angen iddynt wneud cais erbyn eu dyddiad cau i barhau i dderbyn cymorth ariannol.

Lle bo'n briodol i wneud hynny, gall DWP ymestyn y dyddiad cau. Dylai cwsmeriaid ddweud wrth y DWP pam eu bod angen estyniad, a bydd yn cael ei ystyried fesul achos.

## 6. Beth yw'r prosesau ar gyfer y rhai sydd ag anghenion cymorth ychwanegol?

Rydym yn ymwybodol bod gwahanol gwsmeriaid angen gwahanol anghenion cymorth ac mae yna rai sydd angen mwy o gymorth i wneud cais nag eraill.  Dyna pam mae ystod o gymorth mewn lle i helpu pobl i drosglwyddo.

Yn ogystal â'r cymorth a nodir yng nghwestiwn 4 uchod, mae cyfres o gynhyrchion ychwanegol wedi cael eu datblygu fel rhan o'r ymgyrch, a'u cynnwys yn y pecyn cymorth ac ar wefan Symud i UC. Gall partneriaid lawrlwytho'r rhain o'r wefan o'r ddolen ganlynol a byddem yn eich annog i'w defnyddio a'u rhannu fel rhan o'ch rhyngweithio â chwsmeriaid.

Mae'r cynnyrch yn cynnwys fideo eglurhaol, canllawiau cam wrth gam ar y broses o wneud cais a ffurfiau hygyrch ehangach fel fideos Iaith Arwyddion Prydain. Rydym yn annog partneriaid i dynnu sylw at y mathau ychwanegol hyn o gefnogaeth fel rhan o sgyrsiau a gweithgareddau parhaus gyda chwsmeriaid.

## 7. A'i dim ond trwy lythyr y cysylltir â phobl, neu'n ddigidol hefyd?

Bydd pawb y mae angen iddynt symud yn derbyn llythyr Hysbysiad Trosglwyddo yn y post, sy'n roi gwybod iddynt fod angen iddynt wneud cais am Gredyd Cynhwysol cyn eu dyddiad cau

(bydd eu dyddiad cau ar eu llythyr).

## 8. Beth sy'n digwydd os bydd rhywun yn methu eu dyddiad cau i wneud cais?

Rhaid i gwsmeriaid wneud cais am Gredyd Cynhwysol erbyn eu dyddiad cau er mwyn parhau i gael cymorth ariannol. Mae Hysbysiadau Trosglwyddo yn rhoi 3 mis i bob cwsmer wneud eu cais, gyda nifer o negeseuon atgoffa yn cael eu hanfon yn ystod y cyfnod hwn os nad oes cais wedi'i wneud eto.

Gellir ystyried estyniadau os yw rhywun angen mwy o amser, ac mae amrywiaeth o gymorth ar gael lle bo angen i helpu cwsmeriaid i wneud eu cais. Dylech ddweud wrth y cwsmer i gysylltu â'r llinell gymorth (mae’r rhif ar eu Hysbysiad Trosglwyddo) os oes angen.

## 9. A fydd cwsmeriaid yn waeth eu byd pan fyddant yn symud i Gredyd Cynhwysol?

Ar gyfer y cartrefi hynny sy'n symud i Gredyd Cynhwysol drwy'r broses drosglwyddo dan reolaeth, bydd pob un yn cael eu hasesu am ddiogelwch trosiannol pan fyddant yn gwneud eu cais am Gredyd Cynhwysol. Mae hwn yn swm ychwanegol sy'n cael ei ychwanegu at ddyfarniad Credyd Cynhwysol cwsmer cymwys ble mae eu hawl i UC yn is na chyfanswm eu budd-dal etifeddol, fel y gall cartrefi addasu i'r system fudd-daliadau newydd.

Nid yw diogelwch trosiannol yn barhaol. Gall ddod i ben pan fydd eich cais Credyd Cynhwysol yn dod i ben neu'n gostwng os bydd Elfen Credyd Cynhwysol, ac eithrio'r elfen costau gofal plant yn cynyddu, neu os dyfernir Elfen Credyd Cynhwysol newydd.

## 10. Beth yw'r buddion o symud i Gredyd Cynhwysol?

Mae Credyd Cynhwysol yn fudd-dal sengl wedi'i bersonoli a'i ddarparu'n ddigidol, sydd wedi symleiddio’r system fudd-daliadau i gefnogi'r rhai sydd mewn gwaith ar incwm isel, yn ogystal â'r rhai sy'n ddi-waith neu sy'n methu gweithio.

Yn y cyhoeddiad 'Completing the Move to UC' a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022, amcangyfrifodd DWP y byddai mwy na hanner y cwsmeriaid (etifeddiaeth) yn well eu byd ar Gredyd Cynhwysol a bydd y rhai sy'n cael eu hysbysu i symud trwy Hysbysiad Trosglwyddo yn cael eu hasesu ar gyfer, a lle y dyfarnwyd yn gymwys, diogelwch trosiannol.

Gyda Chredyd Cynhwysol, efallai y byddwch hefyd yn gymwys i gael mwy o gymorth ariannol i dalu am bethau eraill fel gofal plant a chostau tai. Efallai y byddwch yn cael anogwr gwaith, a all roi arweiniad wedi'i deilwra i chi ar wella'ch sgiliau a symud ymlaen yn y gwaith i'ch helpu i gefnogi'ch teulu.

## 11. Pryd fydd yr hysbysebion cenedlaethol yn dechrau?

Lansiwyd yr ymgyrch Symud i Gredyd Cynhwysol diweddaraf ym mis Ebrill 2024 a bydd yn rhedeg yn ystod 2025 i gefnogi'r broses o gyflwyno trosglwyddo fesul cam.

## 12. Beth yw nod yr ymgyrch farchnata?

Nod yr ymgyrch farchnata yw codi ymwybyddiaeth bod y symud yn digwydd ac annog cwsmeriaid i wneud cais am Gredyd Cynhwysol ar ôl iddynt dderbyn eu llythyr Hysbysiad Trosglwyddo i barhau i dderbyn cymorth ariannol. Mae hefyd yn cyfeirio at ragor o wybodaeth am Gredyd Cynhwysol ar gov.uk/symudiuc a'r ystod eang o gymorth sydd ar gael ar y wefan i helpu pobl i baratoi ar gyfer eu symud.

Rydym yn deall y gall hwn fod yn gyfnod o ansicrwydd i gwsmeriaid. Nod cyfathrebu yw egluro'r hyn sy'n digwydd mewn ffordd hygyrch a thosturiol i helpu i dawelu meddwl y rhai a allai fod yn poeni am y newid.

## 13. Lle bydd hysbysebion yn ymddangos?

Mae'r ymgyrch hysbysebu Symud i UC yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol, digidol ehangach, radio, print a hysbysebu y tu allan i'r cartref. Defnyddiwyd y gymysgedd gyfoethog hon o sianeli darlledu a thargedu i helpu i sicrhau cyrhaeddiad eang i gwsmeriaid.

Mae'r hysbysebu'n annog cwsmeriaid DWP i gadw llygad am eu llythyr gan DWP a hefyd yn cyfeirio at gymorth pellach sydd ar gael.

Y brif alwad i weithredu ar gyfer yr hysbysebu yw ymweld â gwefan bwrpasol yr ymgyrch bwrpasol – gov.uk/symudiuc – sy'n hafan i wybodaeth a chefnogaeth fanylach i helpu i baratoi cwsmeriaid ar gyfer eu symud.

Bydd ymgysylltu â phartneriaid a ffrindiau a theulu hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth godi ymwybyddiaeth o'r symud i Gredyd Cynhwysol. Byddwn angen i bartneriaid i helpu i ledaenu'r neges am Gredyd Cynhwysol trwy eu rhwydweithiau i gefnogi pobl i gael trosglwyddiad diogel a llyfn.

## 14. Beth yw'r pwyntiau allweddol yn y llythyr/ hysbysiad trosglwyddo i gwsmeriaid?

Bydd y llythyr yn nodi:

- Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am Gredyd Cynhwysol – bydd hyn o leiaf tri mis o'r adeg y cafodd y llythyr ei anfon
- Pennawd i roi gwybod i gwsmeriaid bod y llythyr yn 'Hysbysiad Trosglwyddo i Gredyd Cynhwysol'
- Bod y budd-daliadau y mae cwsmeriaid yn eu hawlio ar hyn o bryd yn cael eu disodli gan Gredyd Cynhwysol
- Llinell gymorth ar gyfer cefnogaeth
- Gwybodaeth am y Gwasanaeth Help i Hawlio gan Gyngor Ar Bopeth
- Dolen i'r cymorth sydd ar gael yn eich ardal leol

## 15. A oes unrhyw drefn daearyddol i sut y bydd y llythyrau/hysbysiadau trosglwyddo yn cael eu hanfon?

Na, anfonir hysbysiadau trosglwyddo ar lefel genedlaethol yn hytrach na lleol.

## 16. Beth yw maint y gynulleidfa ar gyfer pob cyfres o lythyrau?

Gan y bydd trosglwyddo yn digwydd fesul cam, ac mae cynllunio ar gyfer y rhain yn parhau, ni allwn

rannu faint o lythyrau a anfonir ar gyfer pob grŵp o gwsmeriaid. Gellir dod o hyd i wybodaeth am nifer y cwsmeriaid sy'n cael 'budd-daliadau etifeddol' yma.